ClwydAlyn

Gweithio gyda'n gilydd i drechu tlodi

# Datganiad
# Caethwasiaeth Fodern
# ClwydAlyn

2025

ClwydAlyn.co.uk

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes
Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17
0JD

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business
Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17
0JD

**Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn**

2025

Cynnwys:

Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2025

Ein Cynllun Corfforaethol 2025-2030

Cynnydd yn ystod 2024/25

Edrych i'r dyfodol

Ein cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26



## Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2025

Gall caethwasiaeth fodern effeithio ar bawb. Rydym yn deall ei bod yn drosedd gudd a bod pobl yn cael eu caethiwo mewn caethwasiaeth fodern oherwydd eu bod yn agored i niwed, yn cael eu twyllo ac mae pobl eraill yn cam-fanteisio arnynt, yn aml o ganlyniad i dlodi ac allgáu.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Yn ôl y ffigyrau diweddaraf cafodd 16,938 o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern eu hatgyfeirio at y Swyddfa Gartref yn 2022, sef cynnydd o 33% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf ers sefydlu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn 2009. (Ffynhonnell: NRM crynodeb diwedd y flwyddyn 2022).

Gwneir y datganiad hwn yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ein gwaith gyda'n cadwyn gyflenwi, staff a phreswylwyr i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynllun gweithredu ynghyd â gosod blaenoriaethau ar gyfer 25/26.

Mae ClwydAlyn wedi ymrywmo i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gynnal egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, a hawliau dynol, ac rydym wedi ymroi i gymryd camau rhagweithiol i nodi ac ymdrin â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a lleihau'r risgiau.

## Ein Cynllun Corfforaethol 2020-25

Cymdeithas dai yw ClwydAlyn sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru i ddarparu pob math o wasanaethau yn ymwneud â rheoli tai yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd, ac Ynys Môn.
Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd, llety i bobl sengl, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal a nyrsio arbenigol, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli prydlesau, tai rhent canolraddol a thai rhent y farchnad.

Rydym yn llawer mwy na darparwr tai cymdeithasol. Rydym yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Gogledd Cymru, fel cyflogwr a buddsoddwr gyda gwariant cyfalaf sylweddol. Yn ogystal â hyn, daw 80 y cant o'n nwyddau, crefftwyr a gwasanaethau o'r ardal leol. Am bob £1 a gaiff ei gwario yn datblygu tai newydd, rydym yn buddsoddi £1.60 i'r economi leol.

Ym mis Ebrill 2025 gwnaethom ddatblygu ein cynllun corfforaethol pum mlynedd newydd gyda'r nod canlynol, "Gyda'n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar Dlodi".

Bum mlynedd yn ôl gwnaethom ddatgan mai bwriad ClwydAlyn oedd sicrhau Cymru HEB DLODI. Fe wnaethom ddychmygu pa mor wahanol fyddai Cymru heb dlodi – lle mae pawb yn gallu byw mewn tai fforddiadwy, o ansawdd, y gallant fforddio eu gwresogi, lle maent yn gallu fforddio'r bwyd mae eu hangen arnynt i gadw'n iach, a lle mae ganddynt gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli da ac maent yn byw mewn cymunedau lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn.

## Cynnydd yn ystod 2024/25

Rydym yn dal i gynnal hyfforddiant Diogelu i'n staff.
Rydym yn gweithio gyda llawer o gyflenwyr wrth brynu ein nwyddau a'n gwasanaethau ehangach; yn ystod 2024/25, rydym wedi monitro'r cadwyni cyflenwi hynny lle rydym yn credu bod mwy o risg o Gaethwasiaeth Fodern a lle mae ein gwariant ar ei uchaf.

Yn dilyn gwaith prosiect y grŵp Caffael a gwblhawyd ym mis Awst 2023, rydym wedi nodi a blaenoriaethu sawl gwasanaeth a oedd yn cael eu cyflenwi gan ddarparwyr niferus mewn gwasanaethau lle roeddem yn credu bod mwy o risg o ran Caethwasiaeth Fodern. Doedd dim un o'r gwasanaethau hyn o dan gontract ac nid oeddynt wedi'u caffael yn flaenorol, a doedd dim meincnodi nac adolygiadau gwasanaeth wedi'u cynnal. Yn ogystal â bod yn gyfle i ddarparu arbedion effeithlonrwydd, ar ôl comisiynu a chaffael y gwasanaethau hyn yn llwyddiannus gwnaethom benderfynu y byddai cyfle pellach i roi proses rheoli contractau/ cyflenwyr effeithiol yn ei lle i sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) contractau rheolaidd yn cael eu darparu a bod diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, yn eu lle ynghyd ag eitem agenda rheoli contract safonol.

Rydym wedi cwblhau'r prosesau caffael ar gyfer ein gwasanaethau Asiantaeth, y gwasanaeth Cymhorthion ac Addasiadau, y gwasanaethau Glanhau arbenigol, y gwasanaeth Prydau a Bwyd yn ein cynlluniau Gofal Ychwanegol, y gwasanaethau Sgaffaldiau a Rheoli Plâu a bu'n rhaid i'n cyflenwyr newydd ddangos eu bod yn ymwybodol o Gaethwasiaeth Fodern a bod ganddynt bolisïau yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern wrth gyflwyno eu tendrau a chyn dechrau'r contractau.

Mae ein dogfennaeth dendro ddiweddaraf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ddarparwyr roi tystiolaeth a gwybodaeth ychwanegol am y ffordd maent yn ymdrin â Chyflogaeth Foesegol a Chaethwasiaeth Fodern a chytunir ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) i'w cynnwys mewn adroddiadau rheoli contractau gyda phob cyflenwr er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a'u bod yn monitro eu cadwyn gyflenwi i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hyn yn gymwys i bob tendr ni waeth a yw trosiant blynyddol y cyflenwr yn cyrraedd y trothwy £36m sy'n ei gwneud yn ofynnol i lunio datganiad neu beidio.

Fel rhan o'n prosesau caffael a thendro, rydym yn sicrhau bod pob darpar gyflenwr yn cwblhau ac yn dychwelyd Holiadur Cyflenwyr Safonol (SSQ). Gofynnir y cwestiynau canlynol:

- A oes gennych bolisi/datganiad Caethwasiaeth Fodern?
- A allwch chi gadarnhau pa gamau rydych yn eu cymryd yn flynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth.
- A allwch chi gadarnhau nad ydych chi'n destun (neu wedi bod yn destun) unrhyw ymchwiliadau neu gyhuddiadau yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern?

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu gwerthuso a bydd unrhyw bryderon a godir yn arwain at gwestiynau pellach yn gofyn am eglurhad i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf gwerthuso. Gofynnir i'r cyflenwr sy'n ennill y contract ymateb i'r cwestiynau hyn a rhoi tystiolaeth ei fod yn cydymffurfio yn flynyddol fel rhan o'r broses barhaus o reoli contractau.

Yn yr achosion hynny lle mae gennym gyflenwyr sydd heb fynd drwy broses dendro ffurfiol neu sy'n cael eu caffael drwy gontract fframwaith, rydym wedi casglu gwybodaeth i gadarnhau bod ganddynt bolisïau a phrosesau yn eu lle i reoli'r risg cysylltiedig o Gaethwasiaeth Fodern drwy ofyn cwestiynau SSQ a gwerthuso ymatebion.
Yn achos unrhyw gyflenwyr newydd, bydd yn rhaid iddynt gwblhau gwiriadau gorfodol cyn y gellir eu hychwanegu at ein rhestr o gyflenwyr cymeradwy ac ar ein system gyllid. Bydd angen i staff sy'n gofyn am y system cyflenwyr newydd hefyd gwblhau ffurflen Microsoft wedi'i hawtomeiddio sy'n nodi bod y cyflenwr wedi darparu tystiolaeth o bolisi neu broses ar fater Caethwasiaeth Fodern. Lle bo'n gymesur ac yn briodol, byddwn yn gofyn i'r cyflenwr ddarparu datganiad caethwasiaeth fodern/ neu esbonio rhesymau dros beidio â chael datganiad fel rhan o'r gwiriadau.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac fe wnaethom gyflwyno ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern i gofrestrfa newydd y Llywodraeth yn wirfoddol.

Rydym yn cydnabod yr effaith gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod eu cael ar bobl ar hyd eu bywydau ac, yn eu tro, ar ein cymunedau lleol. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant Gwybodus am Drawma ar gyfer ein rolau allweddol, rydym yn mesur effaith y newidiadau rydym wedi'u gwneud ar ein dull gweithredu.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae cefnogi'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ganolog i'n Cynllun Corfforaethol pum mlynedd a bydd hyn yn thema allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol nesaf sy'n cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i gynnal gwiriadau yn ystod y broses dendro ac wrth sefydlu cyflenwyr newydd. Os na fydd cyflenwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern byddant yn cael eu gwahardd yn awtomatig o'r broses gaffael / darparu gwasanaethau.

Rydym yn y broses o gyflwyno ein proses rheoli contractau yn 2025 ar draws pob tîm a bydd Caethwasiaeth Fodern yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) yn yr holl gontractau / ar gyfer prif gyflenwyr, a byddwn yn cyflwyno hapwiriadau y flwyddyn nesaf fel rhan o'n proses barhaus i reoli contractau/ cyflenwyr.

Ar hyn o bryd rydym yn llunio fersiwn drafft o'n Polisi Cyflogaeth Foesegol i adlewyrchu gofynion y Nodyn Polisi Caffael Cymreig newydd.

## Dyma ein cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26:

- Byddwn yn parhau i adolygu polisïau ac arweiniad Caethwasiaeth Fodern ein cyflenwyr fel rhan o'n trefniadau masnachol; byddwn yn cyflwyno hapwiriadau fel rhan o'n prosesau rheoli contractau.
- Byddwn yn rhoi ein Polisi Cyflogaeth Foesegol  newydd ar waith.
- Bydd ein hadolygiad o'n Polisi Tâl yn cynnwys ein hymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Clare Budden**

**Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp**



Cymdeithas Elusennol Gofrestredig / Charitable Registered Society (Rhif/Number 22360R)
Landlord Cymdeithasol Cofrestredig / Registered Social Landlord (Rhif/Number L051) Wedi ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol / Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority
Byddwn yn trin gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal / We will treat correspondence received in English and Welsh on an equal basis